



COFNODION CYFARFOD BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU
19 Medi 2017

Eitem 1: Croeso gan y Cadeirydd

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. Trafodwyd yn sydyn y Pwyntiau Gweithredu a gofnodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, gan esbonio'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo ar bob pwynt.

Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 a 21 Mehefin 2017

3. Cafodd y cofnodion eu nodi a'u derbyn yn rhai cywir.

Eitem 3: Strategaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

4. Eglurodd SP yn sydyn y ddogfen ddrafft ar strategaeth y Bwrdd a oedd yn cynnwys sylwadau gan yr aelodau a swyddogion Llywodraeth Cymru.
5. Cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd y byddai "Papur Gweledigaeth" yn cael ei ddatblygu ac y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu. Byddai'r Grŵp yn sicrhau llif gwaith ac yn fodd o weithio mewn partneriaeth â swyddogion y Llywodraeth.

Eitem 4: Y Diweddaraf ar y Llif Gwaith

Cwsmeriaid a Marchnadoedd

6. Rhoddodd ALW yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr amcanion allweddol sydd wedi'u nodi yn y strategaeth.
7. Cyfeiriwyd at Dwristiaeth Bwyd ac awgrymwyd bod angen gwneud mwy i gysylltu cynhyrchion â lleoedd. Awgrymwyd hefyd y gallai Visit Britain gyflwyno ei ymgyrch 'bwyd yn wych' i'r Bwrdd.
8. Mynegodd KP bryderon bod y cynghrair tlodi bwyd mewn perygl o ddod i ben oherwydd diffyg cefnogaeth. Bydd KP yn cynnwys rhywbeth yn nogfen y strategaeth i dynnu sylw at ansicrwydd o ran bwyd.
9. Rhoddodd NB yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Clwstwr Diodydd. Mynegodd ei phryder ynghylch y ffaith bod angen cydweithio i sefydlu gwindy yng Nghymru ac efallai y gellid ei ystyried o dan y Clwstwr Diodydd.

Buddsoddi a Chyllid



10. Rhoddodd HT yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Cyllid Cymru.
11. Mae'r is-grŵp wedi penderfynu ar raglen waith newydd sy'n seiliedig ar y gynhadledd.

Eitem 5: Diweddariad ar y Gynhadledd Sgiliau

12. Eglurodd JF i'r Bwrdd fanylion y rhaglen ddrafft ar gyfer y Gynhadledd Sgiliau ar 26 Hydref.

Eitem 6: Dangoswrdd Cyflenwi

13. Rhoddodd DM ddiweddariad i'r Aelodau ar y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targed o £7 biliwn a'r 'is-dargedau' ar y Dangoswrdd Cyflenwi. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar y £2.8 miliwn ychwanegol a'r hyn sydd wedi'i gynnig ar gyfer yr arian.

Eitem 7: Prosiect Safle Glynlifon

14. Esboniodd Martin Jardine a Dr Ian Rees i aelodau'r Bwrdd fanylion Prosiect Safle Glynlifon. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio ar y prosiect hwn gydag Arloesi Bwyd Cymru.

Eitem 8: Bylchau Prosesu – y Sector Bwyd Môr

15. Rhoddodd JW yr wybodaeth ddiweddaraf am y Sector Bwyd Môr. Cynhaliodd Promar International ymchwil i werth ychwanegol bwyd môr yng Nghymru ac argymhellodd y cwmni y dylid gwneud mwy o gydweithio. Ni chafodd yr adroddiad ymateb da gan y pwyllgor cynghori ar fwyd môr. Teimlwyd bod yr ymchwil yn hoelio sylw ar gymariaethau ag ardaloedd eraill o'r DU a thramor ac nad oedd hynny'n rhoi gwir amcan o'r sefyllfa yng Nghymru. Mae sicrhau cyflenwad cyson o fwyd môr yn peri problem oherwydd bod y llongau yng Nghymru yn llai o ran maint sy'n golygu ein bod yn gorfod dibynnu ar y tywydd yn fwy na'r arfer.

Eitem 9: Y Diweddaraf ar Origin Green

16. Rhoddodd DM yr wybodaeth ddiweddaraf ar Origin Green ac yn unol â hynny, mae'r cysyniad o "Wedi'i Wneud yng Nghymru yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau brand cadarn i Gymru.

Eitem 10: Trafodaeth ar Brexit

17. Trafododd aelodau'r Bwrdd y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r maes Amaethyddiaeth a Busnesau Bwyd a Diod yng Nghymru, yn



ogystal â chynllun gweithredu strategol gan y Bwrdd a diwrnod strategaeth ar Brexit Amaeth Cymru. Teimlwyd bod y strategaeth yn fan cychwyn da a bod y ffordd hon o fynd ati yn gywir. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith bod y geiriad yn anghywir mewn manau a bod angen ystyried y term 'camau gweithredu' gan y gallai 'allbynnau' fod yn well gair.

Eitem 11: Y Diweddaraf ar y Rhaglen Cyswllt Bwyd

18. Darparodd AM wybodaeth ar hynt rhaglen newydd arfaethedig Sgiliau Bwyd Cymru. Mae Lantra wrthi yn drafftio cais am £3 miliwn i helpu cwmnïau bwyd a diod ar draws Cymru i hybu sgiliau ac i ddarparu hyfforddiant. Byddai'r rhaglen yn rhedeg, o bosibl, rhwng gwanwyn 2018 a 2023.
19. Rhaid i Sgiliau Bwyd Cymru danategu'r strategaeth sgiliau a rhaid ei datblygu a'i darparu mewn partneriaeth â phartneriaid ac arweinwyr y Gynhadledd Sgiliau.
20. Cytunodd y Bwrdd y byddai cyfarfod gyda Lantra a Cywain yn ddefnyddiol er mwyn cynnal sesiwn Cwestiwn ac Ateb. Gall Cywain helpu Gweithgor y Farchnad – AM ac ALW i drafod ymhellach.

Eitem 12: Y Diweddaraf ar Ddatblygu Masnach

21. Eglurodd JB hynt y Rhaglen Datblygu Masnach. Esboniodd fod FD wedi diweddarau'r rhaglen i fanwerthwyr sydd bellach yn ystyried strategaeth pob manwerthwr. Gofynnodd i aelodau'r Bwrdd ystyried mynd i rai o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol Dydd Gŵyl Dewi. Gofynnwyd hefyd i aelodau'r Bwrdd chwarae mwy o ran mewn gweithgareddau 'cwrdd â'r prynwr'.
22. Mae adroddiad rheoli'r categori Bwyd wrth Fynd (Food to Go) wedi ei gymeradwyo a bydd yn cael ei roi ar y wefan.
23. Yn ddiweddar, aeth 14 o gwmnïau bwyd a diod i gyfarfod gydag Amazon.

Eitem 13: Caethwasiaeth Fodern

24. Rhoddodd AR yr wybodaeth ddiweddaraf ar Gaethwasiaeth Fodern a'r angen i godi ymwybyddiaeth am y ffaith bod angen darparu hyfforddiant o fewn busnesau Cymru. Yr ateb symlaf fyddai tynnu sylw at hyn ar y wefan.

Eitem 14: Y Diweddaraf ynghylch Cyfathrebu ac Ymgysylltu

25. Trafodwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth.
26. Awgrymwyd y dylid anfon dau neu dri thrydariad yn ystod neu ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd.
27. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Bwrdd drefnu ymweld â chwmnïau a gwneud ychydig o waith Cysylltiadau Cyhoeddus dilynol.

Eitem 15: Unrhyw fater arall

28. Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd roi gwybod i AR/SP os nad ydynt am barhau i fod yn aelod o'r Bwrdd erbyn diwedd mis Hydref 2018.
29. Bydd LM yn anfon gwahoddiadau calendr i gyfarfodydd yn 2018. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 7 Rhagfyr.

Atodiad 1

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
Huw Thomas (HT)
James Wilson (JW)
Alison Lea-Wilson (ALW)
David Lloyd (DL)
Norma Barry (NB)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
Annitta Engal (AE)
Meilyr Ceredig (MC)
Justine Fosh (JF)

Swyddogion

David Morris (DM)
Suzanne Pomeroy (SP)
Andrew Martin (AM)
Lyndsey Margetson (LM)
Jane Bonner (JB)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Fookes
Justin Scale
Buster Grant
Keith Smyton
David Lloyd-Thomas